Cofnodion

Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Lleoedd a Materion Corfforaethol

Dyddiad: Dydd Llun, 24 Gorffennaf 2023

Amser: 4:00yp

Bresennol: Cynghorwyr M Howells (Cadeirydd), J Cleverly, S Adan, J Harris, G Horton, M Linton, A Pimm, C Reeks, J Reynolds and K Thomas

Yn bresennol: Y Cynghorydd Dimitri Batrouni (Aelod Cabinet dros Drawsnewid Sefydliadol), Paul Jones (Cyfarwyddwr Strategol – Amgylchedd a Chynaliadwyedd), Rhys Cornwall (Cyfarwyddwr Strategol – Trawsnewid a Chorfforaeth), Tracey Brooks (Pennaeth Adfywio a Datblygu Economaidd), Andrew Ferguson (Cynllunio a Datblygu Economaidd Rheolwr Polisi), Matt Tribbeck (Rheolwr Adfywio), Tracey McKim (Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid), Kevin Howells (Rheolwr AD ac OD), Mark Bleazard (Rheolwr Gwasanaethau Digidol), Shaun Powell (Trawsnewid a Rheolwr Gwybodaeth), Janice Dent (Rheolwr Polisi a Phartneriaethau), Elizabeth Bryant (Pennaeth y Gyfraith a Safonau), Mike Wallbank (Pennaeth Cynorthwyol y Gyfraith Gwasanaethau), Leanne Rowlands (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol), Jane Clarke (Rheolwr Gwasanaethau Cofrestru a Chorner), Meirion Rushworth (Pennaeth Cyllid), Robert Green (Pennaeth Cynorthwyol Cyllid), Louise Hughes (Swyddog Refeniw Cynorthwyol Trethi Lleol), Emma Johnson (Casglu Incwm Rheolwr), Richard Leake (Rheolwr Gwasanaeth Caffael a Thaliadau), Neil Barnett (Cynghorydd Craffu), Taylor Strange (Swyddog Llywodraethiant) ac Emily Mayger (Swyddog Llywodraethiant)

1 **Ymddiheuriadau**

Y Cynghorydd Jane Mudd

2 **Datgan diddordeb**

Dim.

3 **Adolygiadau Perfformiad Diwedd Blwyddyn 2022-23**

Adfywio a Datblygu Economaidd
Gwahoddedigion:

- Paul Jones – Cyfarwyddwr Strategol – Yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd
- Y Cynghorydd James Clarke – Yr Aelod Cabinet dros
- Tracey Brooks – Pennaeth Adfywio a Datblygu Economaidd
- Andrew Ferguson – Rheolwr Cynllunio a Pholisi
- Matt Tribbeck – Rheolwr Adfywio

Rhoddodd Pennaeth Adfywio a Datblygu Economaidd drosolwg o'r adroddiad.
Trafodwyd y canlynol:

- Nododd y Pwyllgor fod Brexit a'r argyfwng costau byw yn effeithio ar dwristiaeth, a gofynnodd am ffigyrau ychwanegol. Nododd Pennaeth Adfywio a Datblygu Economaidd y gallai'r gostyngiad yn y ffigurau fod yn gysylltiedig â'r rhesymau hyn, er bod y dystiolaeth yn anecdotaidd.

- Mynegodd y Pwyllgor bryderon am beidio â gorffen y bont gludo ar amser, er gwaethaf iddi gael ei hamlygu mewn gwyrdd. Rhoddodd Pennaeth Adfywio a Datblygu Economaidd sicrwydd bod y cynnydd yn 2023 yn foddhaol a bod y prosiect bellach wedi dechrau, gan leihau'r risgiau cysylltiedig.

- Gofynnodd y Pwyllgor am hen adeilad IAC. Soniodd Pennaeth Adfywio a Datblygu Economaidd am gostau adeiladu cynyddol oherwydd Covid-19 ac ymdrechion parhaus i godi arian ychwanegol.

- Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth am y ganolfan frechu dros dro yn Friars Walk. Eglurodd Pennaeth Adfywio a Datblygu Economaidd fod diddordeb wedi'i ddangos yn hen siop Debenhams yng Nghasnewydd, ond mae maint y gofod wedi creu heriau wrth ddod o hyd i denant newydd. Pwysleisiodd y Pennaeth hefyd fod y safle brechu'n un dros dro.

- Gofynnodd y Pwyllgor am ddangosyddion perfformiad ar gyfer unedau tai fforddiadwy. Soniodd Pennaeth Adfywio a Datblygu Economaidd am ddefnyddio'r flwyddyn ariannol bresennol fel meincnod a mynegodd yr angen am ddangosydd canrannol ar gyfer nifer yr unedau.

- Gofynnodd y Pwyllgor am adroddiadau ar gyfraniad y Cyngor i'r cyfraniadau 106. Cadarnhaodd Pennaeth Adfywio a Datblygu Economaidd y gellir darparu'r wybodaeth hon.

- Roedd y Pwyllgor o'r farn y dylai'r gwaith o gwblhau'r Cynllun Rheoli Cyrchfannau fod yn flaenoriaeth uwch. Eglurodd Pennaeth Adfywio a Datblygu Economaidd fod y cynllun yn rhan o ystod ehangach o gynlluniau rhyng-gysylltiedig. Roedd y Pwyllgor eisiau diweddariadau cynnydd ar y gwaith a wnaed, a nododd y Pennaeth y bydd y cynlluniau hyn yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu i'w holi.

- Gofynnodd y Pwyllgor am fwy o wybodaeth am storio'r Llong Ganoloesol. Soniodd y Rheolwr Adfywio am yr angen am le storio gyda ffactorau allweddol penodol.

- Gofynnodd y Pwyllgor a yw'r chwiliad am eiddo wedi'i gyfyngu i eiddo'r Cyngor. Eglurodd y Rheolwr Adfywio fod yr holl opsiynau sydd ar gael yn cael eu hystyried.

- Holodd y Pwyllgor am gael mwy o gyllid ar gyfer y prosiectau. Soniodd Pennaeth Adfywio a Datblygu Economaidd am y gronfa Ffyniant Gyffredin a'r gronfa Ffyniant Bro, gan nodi y bydd y penderfyniadau ar gyllid yn dibynnu ar fwy o wybodaeth.

- Nododd y Pwyllgor lwyddiannau wrth adfer eiddo i'w defnyddio eto. Pwysleisiodd Pennaeth Adfywio a Datblygu Economaidd mai eiddo masnachol yw'r rhain yn bennaf, a bod rhestr flaenoriaeth o eiddo. Mae'r Swyddog Gorfodi yn gyfrifol am wneud cynnydd ar yr eiddo hwn, ond bydd yn cymryd amser.

- Gofynnodd y Pwyllgor am gynlluniau i greu corff o gyflogwyr Casnewydd i hyrwyddo'r cyflog byw. Dywedodd Pennaeth Adfywio a Datblygu Economaidd y byddai hyn yn ffocws ar ôl i'r prosiectau eraill gael eu datblygu a soniodd am drafodaethau gyda chyflogwyr a'r posibilrwydd o ffurfio grŵp gweithredu.

- Holodd y Pwyllgor ymarferoldeb y wefan Lle. Cadarnhaodd Pennaeth Adfywio a Datblygu Economaidd fod y wefan yn gweithredu ar hyn o bryd ac eglurodd heriau cael data swyddfa gefn. Gofynnodd y Pwyllgor am ddolen y wefan, sef

www.cityofnewport.wales/cy. Eglurodd y Cyfarwyddwr Strategol nad yw'r cyfyngiad yn ymwneud â chyrchu'r wefan ond wrth gael y data.

- Gofynnodd y Pwyllgor am y wybodaeth ddiweddaraf am y ganolfan hamdden newydd. Dywedodd Pennaeth Adfywio a Datblygu Economaidd fod y prosiect yn mynd rhagddo'n dda, gydag ymdrechion i wneud y defnydd mwyaf posibl o le a chyfleusterau.

- Holodd y Pwyllgor am yr amserlen ar gyfer adeiladu'r ganolfan hamdden a dymchwel yr hen safle. Soniodd Pennaeth Adfywio a Datblygu Economaidd am gyfnod adeiladu 18 wythnos o hyd a nododd fod gwahanol dimau yn trin y cyllid ar gyfer dymchwel ac adeiladu.

- Gofynnodd y Pwyllgor am ddinasoedd cymheiriaid Casnewydd. Soniodd Pennaeth Adfywio a Datblygu Economaidd am ddinasoedd fel Cofentri a chadarnhaodd y bydd gwybodaeth y dinasoedd cymheiriaid yn cael ei rhannu. Gofynnodd y Pwyllgor am uchafbwyntiau gan y dinasoedd cymheiriaid hynny, a soniodd y Rheolwr Adfywio am heriau tebyg ar draws y dinasoedd hyn.

- Holodd y Pwyllgor sut mae'r strategaeth yn anelu at ddenu staff technoleg o'r radd flaenaf. Tynnodd Pennaeth Adfywio a Datblygu Economaidd sylw at agweddau hanesyddol a diwylliannol Casnewydd, gan bwysleisio pwysigrwydd creu lle i fyw ac aros, nid dim ond gweithio. Pwysleisiodd y Pwyllgor efallai na fydd bod yn ddinas ddiwylliannol yn helpu gyda chyflogaeth. Cydnabu'r Pennaeth hyn a soniodd am y cysylltiad rhwng diwylliant a thechnoleg, fel Theatr Glan yr Afon.

- Cydnabu'r Pwyllgor y ffocws ar dechnoleg ond awgrymodd hefyd ganolbwyntio ar hyfforddiant gwasanaeth allweddol, fel lletygarwch, i ddenu pobl i'r ddinas.

- Gofynnodd y Pwyllgor am gynlluniau ar gyfer colegau galwedigaethol gyda phynciau adeiladu. Soniodd Pennaeth Adfywio a Datblygu Economaidd am y tîm Sgiliau Gweithle, y bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a'r Sefydliad Technoleg Cenedlaethol, a fydd yn cynnig hyfforddiant yn seiliedig ar anghenion cyflogwyr. Pwysleisiodd y Pennaeth bwysigrwydd cyflogwyr yn cyfleu eu gofynion sgiliau. Gofynnodd y Pwyllgor am gyhoeddi gwybodaeth gan y grŵp Sgiliau Gweithle i gynorthwyo cyflogwyr.

- Holodd y Pwyllgor am yr amserlen ar gyfer y Sefydliad Technoleg Cenedlaethol. Soniodd Pennaeth Adfywio a Datblygu Economaidd am waith dichonoldeb parhaus a thros 60 llythyr o gefnogaeth gan ddiwydiannau, yn enwedig gan gyflogwyr Lled-ddargludyddion.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am fod yn bresennol.

Pobl, Polisi a Thrawsnewid
Gwahoddedigion:
- Rhys Cornwall – Cyfarwyddwr Strategol – Trawsnewid a Chorfforaethol
- Y Cynghorydd Dimitri Batrouni - Yr Aelod Cabinet dros Drawsnewid Sefydliadol
- Tracey McKim – Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid
- Kevin Howells – Rheolwr AD a DS
- Mark Bleazard - Rheolwr y Gwasanaethau Digidol
- Shaun Powell – Rheolwr Trawsnewid a Gwybodaeth
- Janice Dent - Rheolwr Polisi a Phartneriaeth

Rhoddodd Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid drosolwg o'r adroddiad.

Trafodwyd y canlynol:

- Cydnabu'r Pwyllgor bryderon am bobl oedrannus a'r rhai sydd dan anfantais economaidd yn cael eu gwthio tuag at lwyfannau digidol. Dywedodd Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid fod y Strategaeth Ddigidol yn anelu at fynd i'r afael â'r grwpiau hyn ac ystyried ffyrdd i'w cynorthwyo gan ddefnyddio dyfeisiau digidol syml. Anogodd yr Aelod Cabinet dros Drawsnewid Sefydliadol unigolion oedrannus i fynd i'r hyb clyfar ym marchnad Casnewydd i wella ansawdd eu bywyd, a dywedodd mai ffactor pwysig i'w ystyried yw bod Casnewydd yn ddinas ifanc a bod yn rhaid edrych ar y grŵp hwn a'i helpu.

- Holodd y Pwyllgor am ddemograffeg y fenter Get Connected. Bydd Rheolwr y Gwasanaethau Digidol yn rhoi'r metrigau i'r Pwyllgor, gan bwysleisio y gellir camddehongli'r data.

- Mynegodd y Pwyllgor bryder am y cynnydd mewn absenoldebau staff. Cydnabu Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid gymhlethdod data salwch a thynnodd sylw at y newid tuag at ddull lles ar gyfer rheoli absenoldebau.

- Cwestiynodd y Pwyllgor y mesurau a gymerwyd i hwyluso'r broses wirio ar gyfer rheolwyr. Eglurodd Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid y camau a gymerwyd i symleiddio'r broses wirio a rhoi canllawiau i reolwyr.

- Holodd y Pwyllgor am y gostyngiad yn y metrig prentisiaeth. Trafododd Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid strategaethau newydd i lenwi swyddi anodd eu llenwi trwy gynlluniau prentisiaid a chefnogaeth i brentisiaid presennol.

- Gofynnodd y Pwyllgor a yw'r Cyngor yn cynorthwyo busnesau sy'n ceisio cyflogi prentisiaid. Eglurodd y Rheolwr AD a DS eu bod fel arfer yn cysylltu â darparwyr y cynllun yn uniongyrchol, ond mae cydweithredu rhanbarthol yn peri heriau.

- Gofynnodd y Pwyllgor am y targedau arfaethedig ac ymestyn ar gyfer cyfathrebu ar y cyfryngau cymdeithasol. Cydnabu Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid gyfyngiadau'r metrig a mynegodd yr angen i wella monitro ac ymgysylltu â mesurau. Awgrymodd y Pwyllgor gysylltu ag ysgolion a chynghorau ieuenctid. Soniodd yr Aelod Cabinet dros Drawsnewid Sefydliadol am ymdrechion i ymgysylltu â phobl dros 65 oed ar Facebook a rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor fod y timau yn mynd i'r afael â'u pryderon.

- Sylwodd y Pwyllgor ar ddyddiad cau metrig gwyrdd a fethwyd ar dudalen 54, pwynt 1. Eglurodd Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid fod y prosiect wedi'i gwblhau, ond bod rhywfaint o waith asedau'n weddill.

- Mynegodd y Pwyllgor ddiddordeb mewn gwybod yr holl asedau y meddir arnynt. Soniodd Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid am waith parhaus i lunio rhestr asedau gynhwysfawr, gan ganolbwyntio ar refeniw, ôl troed carbon ac anghenion cymunedol. Bydd cynnydd yn cael ei rannu mewn diweddariadau bob 6 mis.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am fod yn bresennol.

Y Gyfraith a Safonau

Gwahoddedigion:

- Rhys Cornwall – Cyfarwyddwr Strategol – Trawsnewid a Chorfforaethol
- Y Cynghorydd Dimitri Batrouni - Yr Aelod Cabinet dros Drawsnewid Sefydliadol
- Elizabeth Bryant – Pennaeth y Gyfraith a Safonau
- Mike Wallbank - Pennaeth Cynorthwyol y Gwasanaethau Cyfreithiol
- Leanne Rowlands – Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol
- Jane Clarke – Rheolwr y Gwasanaethau Cofrestru a Chrwner

Rhoddodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau drosolwg o'r adroddiad.

Trafodwyd y canlynol:

- Holodd y Pwyllgor am faterion ar draws y sir yn y broses o gofrestru marwolaethau, gan nodi pryderon gan drigolion. Gwnaeth hefyd ofyn cwestiynau am archwiliadau post-mortem a'r amser a gymerwyd. Soniodd Rheolwr y Gwasanaethau Cofrestru a Chrwner am newidiadau oherwydd y ddeddf Covid-19 a ffactorau eraill fel yr adeg o'r flwyddyn. Bydd newid i archwilwyr meddygol yn cael ei weithredu erbyn mis Ebrill. Tynnodd y swyddog sylw at y ffaith bod hwn yn fater cenedlaethol. Cadarnhaodd y swyddog fod y targed o gynnig apwyntiad ar gyfer cofrestru marwolaeth o fewn 2 ddiwrnod yn cael ei fwrw. Nid yw'r targed 5 diwrnod yn berthnasol i achosion a atgyfeirir i'r crwner.

- Holodd y Pwyllgor am y system ddyddiadur ar gyfer cofrestru genedigaethau a marwolaethau. Mae'r dyddiadur, sy'n cofnodi'r holl enedigaethau a marwolaethau ar hyn o bryd, yn cael ei brofi. Y cam nesaf yw trosglwyddo i system ar-lein ar gyfer trefnu apwyntiadau.

- Mynegodd y Pwyllgor bryderon am yr heriau sy'n wynebu pobl oedrannus ag ID pleidleisiwr. Soniodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol am yr adborth a dderbyniwyd ar y pwnc a phwysleisiodd y nod o hysbysu pobl am ddogfennau derbyniol. Ni ddosbarthwyd unrhyw gyfathrebiadau ynglŷn ag ID pleidleisiwr yng Nghymru, gan fod y ffocws ar Loegr. Fodd bynnag, bydd ID pleidleisiwr yn cael ei weithredu yng Nghymru ym mis Medi.

- Gofynnodd y Pwyllgor am gynnydd penodi crwneriaid. Rhannodd Rheolwr y Gwasanaethau Cofrestru a Chrwner fod dau grwner cynorthwyol yn cael hyfforddiant, a bod nifer yr achosion wedi gostwng o 13 mis i 8-9 mis. Maent yn disgwyl bwrw'r targed erbyn diwedd 2023-24.

- Holodd y Pwyllgor am statws cyflogaeth staff mewn perthynas â Heddlu Gwent a Chyngor Dinas Casnewydd. Eglurodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau fod opsiynau'n cael eu hystyried, gan gynnwys hysbysebu swydd newydd. Gwnaeth hefyd grybwyll y bydd staff Cyngor Dinas Casnewydd hefyd yn cael eu dwyn i'r un lefel â staff yr heddlu ac y byddai Heddlu Gwent yn hoffi cael cytundeb lefel gwasanaeth.

- Holodd y Pwyllgor ganran y bobl sy'n teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol. Eglurodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol fod metrigau arolwg cenedlaethol yn cael eu casglu ar gyfer Cymru ac y bydd arolwg lleol hefyd yn cael ei gynnal i gael mwy o ddealltwriaeth o faterion lleol. Nododd y rheolwr yr her o ran cael gwybodaeth am gyfranogiad ac ymgysylltu.

- Cydnabu'r Pwyllgor y gall trigolion ymgysylltu'n uniongyrchol ag aelodau etholedig, nid drwy arolygon yn unig. Holodd am darddiad y ffigur o 159,000 ynghylch cyfranogiad. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol ei fod yn cynnwys holl drigolion Casnewydd ond nad oedd yn siŵr a yw'n cynnwys plant hefyd.

- Gofynnodd y Pwyllgor a yw cwblhau'r achrediad ar gyfer hyfforddiant llythrennedd carbon yn orfodol. Mynegodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol yr awydd i gael cymaint o aelodau ag y bo modd wedi'u hachredu.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am fod yn bresennol.

<u>Cyllid</u>

Gwahoddedigion:

- Meirion Rushworth – Pennaeth Cyllid
- Robert Green – Pennaeth Cynorthwyol Cyllid

- Louise Hughes – Swyddog Refeniw Cynorthwyol - Trethi Lleol
- Emma Johnson – Rheolwr Casglu Incwm
- Richard Leake – Rheolwr y Gwasanaeth Caffael a Thaliadau

Rhoddodd Pennaeth Cyllid drosolwg o'r adroddiad.

Trafodwyd y canlynol:

- Cydnabu'r Pwyllgor waith wedi'i gwblhau a thrafododd gasgliad amrywiol gynlluniau, gan gynnwys cynlluniau COVID.
- Holodd y Pwyllgor am wasanaethau a oedd yn tanberfformio a gofynnodd am ddadansoddiad yn ôl adran. Dywedodd Pennaeth Cyllid y gallai rhai gwasanaethau fod yn is na'r cyfartaledd a bod ymdrechion yn cael eu gwneud i wella'r niferoedd hyn.
- Holodd y Pwyllgor am y broses monitro cyllideb ddiwygiedig. Eglurodd Pennaeth Cynorthwyol Cyllid y newidiadau a wnaed eleni, gan bwysleisio dibyniaeth ar ragolygon rheolwyr cyllideb. Soniodd Pennaeth Cynorthwyol Cyllid am roi cymorth i reolwyr a phwysleisiodd y ffocws ar feysydd risg uwch fel Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Gofynnodd y Pwyllgor am y capasiti ar gyfer Archwilio yn dilyn ymadawiad staff. Soniodd Pennaeth Cyllid am heriau dod o hyd i archwilwyr a thrafododd ystyriaethau strategol, fel uno â thîm Archwilio cyngor arall. Pwysleisiodd Pennaeth Cyllid y risgiau difrifol i archwiliad 2023-24 a hysbysodd gadeirydd y Pwyllgor. Nododd y Pwyllgor hysbysu cynghorwyr am bwysigrwydd archwiliadau.
- Gofynnodd y Pwyllgor am oedi yn y cyfrifon a'r rhesymau y tu ôl iddynt. Cyfeiriodd Pennaeth Cyllid at effeithiau allanol ac anawsterau recriwtio, yn ogystal ag oedi gan Archwilio Cymru. Rhagwelodd Pennaeth Cyllid y bydd cyfrifon 2023-24 yn cael eu cymeradwyo erbyn mis Tachwedd.
- Gofynnodd y Pwyllgor am gynorthwyo trigolion sy'n llai abl yn dechnolegol. Soniodd Pennaeth Cyllid am y canolfannau wyneb yn wyneb sydd ar gael a gwaith ailwampio gwefannau parhaus.
- Mynegodd y Pwyllgor bryderon ynghylch amseroedd aros i gwsmeriaid. Amlygodd Pennaeth Cynorthwyol Cyllid faterion staffio yn y llinell treth gyngor a thrafodaethau parhaus ar ddyrannu adnoddau ar gyfer amseroedd aros gwell.
- Mynegodd y Pwyllgor ddiddordeb mewn mynd i'r afael â materion sy'n digwydd yn aml yn fwy effeithiol. Awgrymodd Pennaeth Cyllid gynnwys adran y dreth gyngor ar gyfer rhai galwadau heriol a gostwng y targed amser galwadau ar ôl i'r mater gael sylw.
- Holodd y Pwyllgor am y defnydd o roboteg. Dywedodd Pennaeth Cyllid fod yr ateb hunanwasanaeth yn perfformio'n well na'r ateb robotig.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am fod yn bresennol.

<u>Casgliadau</u>

Adfywio a Datblygu Economaidd

- **Dangosydd Perfformiad – "Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd sydd wedi cael caniatâd cynllunio yn ystod y flwyddyn"** - Dywedodd yr Aelodau y byddai'n ddefnyddiol gweld y ffigwr fel canran gyffredinol mewn adroddiadau yn y dyfodol.

- Hoffai'r Pwyllgor wybod faint o arian y mae'r Cyngor yn ei roi o ran cytundebau Adran 106. Gofynnwyd hefyd a oedd modd dweud wrthynt sut y mae'n cymharu â blynyddoedd blaenorol.

- Cafwyd trafodaeth ynghylch y Cynllun Creu Lleoedd, y Cynllun Rheoli Cyrchfannau a'r Strategaeth Ddiwylliannol. Teimlai'r pwyllgor y byddai mwy o eglurder ynghylch camau i yrru traffig i'r wefan ac i gael pobl i ymweld â Chasnewydd yn ddefnyddiol. Mae'r Pwyllgor yn gofyn a allai dderbyn adroddiadau gwybodaeth ar y tair strategaeth erbyn diwedd mis Medi.

- ***Tudalen 25 Cyfeirnod 6 - "Datblygu Cynllun Marchnata Lle sy'n hyrwyddo Casnewydd fel lle gwych i fyw, gweithio, dysgu a buddsoddi ynddo, ac ymweld â hi",*** Hoffai'r Aelodau wybod beth yw'r lleoliadau cymheiriaid eraill yr ydym wedi bod yn edrych arnynt, a hefyd beth yw'r uchafbwyntiau hyd yn hyn.

- Roedd yr Aelodau'n awyddus i ystyried pwysigrwydd economi'r nos o ran cyflawni amcanion y cynllun.

- Gofynnodd yr Aelodau am gael y manylion cyswllt cyhoeddus ar gyfer y Grŵp Sgiliau Gweithio.

- ***Tudalen 29 Cyf 4 - "Defnyddio pwerau gorfodi effeithiol i amddiffyn rhag datblygiad amhriodol ac adfer rhai eiddo gwag ac adfeiliedig hir sefydlog y ddinas", -*** Nododd yr Aelodau y swydd newydd a grëwyd i arwain ar ddilyniant achosion blaenoriaeth, a gwnaed sylwadau am y 2 lwyddiant. Awgrymodd yr aelodau osod dangosydd perfformiad ar gyfer adroddiad yn y dyfodol i sicrhau ein bod yn cael gwerth am arian o'r swydd.

- Mae'r Pwyllgor yn gofyn am i gyfeiriad gwefan y Cynllun Creu Lleoedd gael ei ddosbarthu i'r Aelodau ac i waith optimeiddio chwilotwyr pellach gael ei wneud.

- Gofynnodd yr Aelodau a allent gael dadansoddiad o bob math o fusnes yng nghanol y ddinas.

Pobl, Polisi a Thrawsnewid

- **Tudalen 46 Cyf 6 – *"Datblygu sgiliau digidol dinasyddion, cyflogeion ac aelodau",*** Hoffai'r Pwyllgor wybod faint o bobl a oedd yn gwneud y cwrs Sgiliau Digidol Get Connected, a beth oedd demograffig y bobl hynny.

- Roedd yr Aelodau'n falch o weld y gwelliannau a wnaed ar gyfer gwiriadau staff.

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad o ddyddiad cwblhau tebygol ar gyfer y Cynllun Rheoli Asedau, gan yr hoffai'r Aelodau gynnwys hyn ar flaenraglen waith y pwyllgor fel eitem agenda.

- **Tudalen 59 – PI – *'Cyfanswm nifer y dilynwyr cyfryngau cymdeithasol'***, Gofynnodd yr Aelodau a yw'r mesurau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol yn briodol. Awgrymwyd hefyd ddefnyddio ysgolion, fel disgyblion y chweched dosbarth fel rhan o'u gwaith cwrs, i helpu gydag ymgysylltu. Gallai'r Cyngor Ieuenctid hefyd gael ei gynnwys.

- Mae'r Pwyllgor yn gofyn am i'r adroddiad Adolygiad Canol Blwyddyn gynnwys diweddariad ar weithredu'r polisi salwch, a sut mae'n cymharu ag awdurdodau lleol eraill.

Y Gyfraith a Safonau

- Mae'r Pwyllgor yn gofyn am gael dolen i'r Strategaeth Cyfranogiad. Hoffai hefyd wybod beth oedd oedran y plant yn yr ymgysylltiad.

- Roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod yr ôl-groniad yn lleihau yn Swyddfa'r Crwner, ond nodwyd na roddwyd ffigyrau ar gyfer yr ôl-groniad. Mae'r Aelodau'n gofyn a allent dderbyn y ffigurau hyn.

- **Mesur Perfformiad Tudalen 82 –** ***"Canran y bobl sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol (Arolwg Cenedlaethol Cymru a data lleol)" –*** Ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol, gofynnodd yr Aelodau a ellid cynnwys nifer y dulliau ymgysylltu.

Cyllid

- **Mesur Perfformiad – "*Monitro'r gyllideb* – Cyflwyniadau r*heolwyr cyllideb Canran y rhagolygon misol a gyflwynwyd gan reolwyr cyllideb" –** Gofynnodd yr Aelodau a ellid nodi pa wasanaethau sy'n is na'r targed, a'r rhesymeg pam eu bod yn tanberfformio.

- Mynegodd y Pwyllgor ei bryder am y diffyg adnoddau yn yr adran Archwilio, a nododd fod angen cydnabod hyn gan y gallai fod yn fygythiad sylweddol i'r Cyngor. Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor y bydd yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio i rannu pryderon y Pwyllgor Lle a Chorfforaethol, yn ogystal ag Aelodau Craffu sydd hefyd yn eistedd ar y Pwyllgor Archwilio.

- **Mesur Perfformiad –** ***"Amser aros cyfartalog y Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid – ymholiadau Treth Gyngor" –*** Mae'r Aelodau'n awgrymu bod y targed 25 munud yn cael ei ostwng wrth i'r targed presennol gael ei fwrw'n gyfforddus. Gofynnodd yr Aelodau hefyd a ellid darparu manylion am amseroedd galwadau yn ystod adegau prysur ar gyfer llinellau yn y Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid.

4 **Adroddiad Cynghorydd Craffu**

Gwahoddedig:
- Neil Barnett – Ymgynghorydd Craffu

a) Diweddariad ar y Flaenraglen Waith

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Craffu'r Flaenraglen Waith, a dywedodd wrth y Pwyllgor am y pynciau a oedd i'w trafod yn y ddau gyfarfod pwyllgor nesaf:

Dydd Llun 11 Medi 2023, yr eitem ar yr agenda;
- Cynllun Datblygu Lleol Newydd - Strategaeth a Ffefrir

Dydd Llun 27 Tachwedd 2023, yr eitem ar yr agenda;
- Adolygiadau Canol Blwyddyn Cynlluniau Gwasanaeth 2023-24

b) Taflen Weithredu

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Craffu y daflen weithredu i'r Pwyllgor.

5 **Recordiad o'r cyfarfod**

I weld recordiad y cyfarfod cliciwch yma

Daeth y cyfarfod I ben am 7.30 pm